Newyddlen Rhaglen Moderneiddio Addysg - Hydref 2011

Adolygiad Ardal Edeirnion

Ar Hydref 13, 2011 fe gyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych ddau hysbysiad statudol ar gyfer y cynigion:

1. I derfynu Ysgol Maes Hyfryd ac Ysgol Llandrillo ar Awst 31, 2012 ac i sefydlu ysgol fro Cyfrwng Cymraeg newydd i wasanaethu cymunedau Cynwyd a Llandrillo ar safleoedd yr ysgolion presennol o Fedi 1, 2012 gan symud i safle sengl yng Nghynwyd yn dilyn cwblhau estyniad a gwaith ailwampio, a

2. Therfynu Ysgol Glyndyfrdwy ar Awst 31, 2012 a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Y Gwernant, Llangollen yn amodol ar ddewis rhieni.

Mae cyhoeddi'r hysbysiadau statudol yn nodi dechrau cyfnod gwrthwynebu o fis.

Ysgol Bryn Collen / Gwernant Project

Mae buddsoddiad o £800,000 yn y safle a rennir gan Ysgol Bryn Collen / Ysgol Y Gwernant yn Llangollen i ymestyn ac ailwampio ardaloedd yn y safle presennol wedi eu cwblhau a'r cyfleusterau newydd wedi eu trosglwyddo i'r ysgolion.

Cyfuno Ysgol Gwaenynog a Ysgol Heulfre

Fe ddaeth y cyfnod hysbysu statudol ar gyfer y cynnig i ben ar Hydref 8, 2011. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Fe wnaiff y Cyngor weithio efo cyrff llywodraethu Ysgol Gwaenynog ac Ysgol Heulfre'n awr i weithredu'r cynnig.

Disgwylir i'r ysgol newydd agor ar Fedi 1, 2012.

Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd a Ysgol Gellifor

Fe sefydlwyd Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor ar Fedi 1, 2011.

Mae corf llywodraethu ffederal wedi ei sefydlu ac mae cyrff llywodraethu blaenorol Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor wedi eu terfynu.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

www.sirddinbych.gov.uk/moderneiddioaddysg

Newyddlen Rhaglen Moderneiddio Addysg - Hydref 2011

Diweddariad ar Ysgolion yr 21g

Cafwyd cyfarwyddyd diwygiedig gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag Ysgolion yr 21g. Mae'r cyfarwyddyd yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol adolygu prosiectau a ddarparwyd yn y band cyllid cyntaf (Band A) ar sail fforddiadwyedd (h.y. darpariaeth 50% o arian cyfatebol gan awdurdodau lleol) ac yn erbyn y meini prawf blaenoriaethu a sefydlwyd (rhaglenni / prosiectau sy'n taclo aneffeithlonrwydd stad).

Gyda'r ailgyflwyno bydd yn ofynnol i Sir Ddinbych ddangos i Lywodraeth Cymru ei strategaeth gyffredinol i leihau cynhwysedd dros ben ar gyfer y stad ysgol gyfan, yn cynnwys targed sydd wedi'i nodi ar gyfer lleoedd dros ben. Gyda phrosiectau Band A bydd yn ofynnol i ni ddangos sut y bydd y cynigion yn lleihau lleoedd dros ben, yn gwella cyflwr y stad ysgol ac yn caniatáu lleihad yng nghostau rhedeg a'r ôl-groniad o waith cynnal.

Bydd cyflwyniadau unigol yn ofynnol gan y Llywodraeth Gymreig erbyn Tachwedd 18. Rhagwelir y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad yn gynnar ym mis Rhagfyr ynglŷn â phroffil cyllid i awdurdodau lleol am y cyfnod o chwe blynedd o 2014 i 2020.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sydd wedi eu neilltuo ar gyfer cyllid fwrw ymlaen i ddatblygu Achosion Busnes Amlinellol fel cam nesaf y broses o gymeradwyo yn gynnar yn 2012.

Diweddariad ar Gyllid "Tranche 3"

Mae'r Cyngor wedi derbyn cytundebau drafft gan y Llywodraeth Gymreig er mwy cyrchu cyllid Tranche 3. Unwaith y bydd pob cytundeb wedi eu dychwelyd, fe ddylid cadarnhau'r cyllid.

Fe ddefnyddir y cyllid hwn i ymestyn Ysgol Y Llys ym Mhrestatyn ac ar gyfer gwaith ailfodelu yn Ysgol Dewi Sant yn y Rhyl ac Ysgol Twm o'r Nant yn Ninbych.

Ysgol Gymunedol Bodnant

Mae'r cyfuniad yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae Mrs Helen Vernon wedi ymgymryd â'i swydd fel prifathrawes yr ysgol newydd ac mae'n paratoi ar gyfer agor yr ysgol newydd ar Ionawr 1, 2012.

Adeiladu Cynhwysedd mewn Ysgolion

Mae ysgolion dan bwysau i ymdopi â beichiau gwaith sy'n ymwneud â busnes a chyllid mewn ysgolion ac felly rydyn ni'n gweithio ar hyn o bryd ar brosiect sydd â'r nod o adeiladu cynhwysedd mewn ysgolion a rhyddhau'r amser y bydd prifathrawon yn ei dreulio'n delio â'r materion hyn. Y gobaith ydi sefydlu pob clwstwr o ysgolion â model sydd â Rheolwr Gweithredol a Rheolwr Cyllid yn cynorthwyo'r Prifathro a'r Corff Llywodraethu â rhedeg yr ysgol yn ddyddiol. Mae hwn yn gyfle cyffrous i Ysgolion Sir Ddinbych ac rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio efo'r ysgolion i wneud y prosiect hwn yn llwyddiant yn y misoedd nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

www.sirddinbych.gov.uk/moderneiddioaddysg